

# Amlinelliad Swydd

## Teitl y Swydd:

Rheolwr ar Ddyletswydd

## Cyflog:

Gradd 7

## Sail:

Achlysurol

## Lleoliad:

Y MET

## Yn atebol i:

Rheolwr Gweithrediadau

## Yn gyfrifol am:

Dim rheoli llinell uniongyrchol er y bydd yn goruchwyllo gwirfoddolwyr a staff blaen tŷ achlysurol yn ôl yr angen

## Eich Rôl:

Gweithredu fel Rheolwr ar Ddyletswydd, Goruchwyllydd Digwyddiadau a deiliad allweddî yn y MET, gan arwain ac ysbrydoli'r tîm wrth sifft i ddarparu gofal cwsmer rhagorol a phrofiad radd flaenaf i gwsmeriaid.

# Yn y rôl, byddwch yn:

- Agor a chau'r adeilad yn ôl yr angen, i gyd-fynd ag anghenion y rhaglenni amrywiol o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y MET.
- Rheoli gweithgareddau a digwyddiadau o ddydd i ddydd yn y MET, gan ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'r holl gwsmeriaid, llogwyr a chwmnïau sy'n ymweld.
- Goruchwylio a chefnogi tîm Gwirfoddoli Blaen Tŷ a Chynorthwyr Bwyd a Diod, gan eu defnyddio i ddarparu profiadau o ansawdd uchel i'r gynulleidfa.
- Briffio yn ddyddiol ac ôl-drafod, gan gyfleu gwybodaeth sifft hanfodol i'r tîm Blaen Tŷ / Bwyd a Diod, yn ogystal â nodi manylion ac adborth i gylchredeg yn adroddiad dyddiol y digwyddiad a'i drosglwyddo i'r rheolwyr perthnasol yn ôl yr angen.
- Adrodd ar faterion sy'n gysylltiedig â digwyddiadau ac argymhell gwelliannau mewn safonau gwasanaeth cwsmeriaid ar y cyd â'r Rheolwr Gweithrediadau.
- Ymateb i gwynion ac ymholiadau cwsmeriaid yn effeithlon ac yn broffesiynol.
- Sicrhau bod yr holl ragofalon iechyd a diogelwch ar waith a bod yr holl weithdrefnau adrodd critigol diogelwch yn cael eu dilyn, gan gynnwys diogelwch tân, diogelwch yr adeilad a chymorth cyntaf ond heb fod yn gyfyngedig iddo.
- Yn gyfrifol am ddsbarthu, coladu a chysoni fflotiau yn gywir, yn ogystal â thaliadau ac unrhyw arian arall sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a gweithgareddau, gan ddilyn y gweithdrefnau a'r protocolau perthnasol ar gyfer cadw cofnodion a phrosesau bancio, gan gynnwys adrodd i gyllid, a chofnodi ar gyfer archwiliadau.
- Cynnig gwybodaeth yn hyderus am wasanaethau hygyrchedd i gwsmeriaid a llogwyr.
- Cwblhau adroddiadau damweiniau yn gywir, gan gofnodi unrhyw ddilyniant priodol a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer Rheolwr Gweithrediadau.
- Cysylltu ag unedau busnes eraill i sicrhau bod perfformiad a digwyddiadau yn cael eu cynnal yn ddidrafferth.
- Paratoui ar gyfer digwyddiadau gan gynnwys trefnu a darparu unrhyw arlwyio sydd ynghlwm wrth ddigwyddiadau.
- Goruchwylio gweithrediad y bar yn ystod digwyddiadau gan sicrhau gwasanaeth llyfn a sicrhau ei fod yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.
- Helpu i gynnal a chadw'r adeilad gan gynnwys glanhau sylfaenol ac adrodd am unrhyw ddiffygion trwy lwyfannau cynnal a chadw.
- Bod yn Swyddog Cymorth Cyntaf a sicrhau bod cymorth cyntaf yn cael ei weinyddu yn unol â'r hyfforddiant.
- Gweithredu fel deiliad allweddi bob amser gan sicrhau diogelwch; sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gloi a'i agor yn ddiogel.
- Cefnogi'r Rheolwr Gweithrediadau gyda dyletswyddau gweinyddol i baratoui ar gyfer digwyddiadau, a chadw'r tîm Gwirfoddoli.

---

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch methiannau effeithio arnynt yn y gwaith.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein pwrpas a'n gwerthoedd ym mhopeth a wnewch.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i degwch ac amrywiaeth ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n ffurfio'r swydd hon, ac efallai fod yn rhaid ei amrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

# awen

# Manyleb Person

## Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL (H):

- Dull ac agwedd hyblyg a rhagweithiol (H)
- Canolbwyntio ar atebion ac yn gallu canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau (H)
- Yn hyderus ac yn broffesiynol gyda'r gallu i ymdrin â chydweithwyr a'r cyhoedd yn effeithiol (H)
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid (H)
- Diddordeb a brwdfrydedd mewn theatrau a chelfyddydau (H)
- Ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd a phrosiectau newydd
- Yn cyfrannu at yr ethos o welliant parhaus
- Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i bwrpas a gwerthoedd Awen.
- Meddwl yn arloesol a chreadigol ac sy'n mwynhau cefnogi datblygiadau a mentrau newydd.

awen

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:

## (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL (H)):

- Tystysgrif Genedlaethol BTEC neu gymhwyster tebyg mewn pwnc neu allu perthnasol i ddangos cymhwysedd drwy brofiad (H)
- Profiad o weithio mewn rôl oruchwylio rheng flaen gwasanaeth cwsmeriaid (H)
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun yn ogystal ag aelod allweddol o dîm (H)
- Y gallu i aros yn bwylllog a chanolbwyntio o dan bwysau (H)
- Dull trefnus a sylw i fanylion (H)
- Profiad trin arian parod (H)
- Rheoli amser yn dda a'r gallu i ddilyn cyfarwyddiadau (H)
- Yn gallu codi, symud a chario llwythi/stoc ac offer / eitemau eraill yn ôl yr angen (H)
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da (H)
- Deiliad trwydded bersonol neu'r gallu i wneud cais am drwydded bersonol (H)
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a'u goruchwylio.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoliadau iechyd a diogelwch ar gyfer theatrau a digwyddiadau byw.
- Cymhwyster rheoli'n ddiogel IOSH
- Cymhwyster TGCh ffurfiol neu'r gallu i ddangos cymhwysedd trwy brofiad.
- Y gallu i siarad Cymraeg.

# awen

